# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 1
30/03/20

## Iesu'n mynd i mewn i Jerwsalem

Stori a gweithgareddau i'w gwneud adraf tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.



# Stori



## Fersiwn Beibl.net

http://www.beibl.net/beibl-chwilio?pennod=11&book=BNET%3AMark&viewid=BNET%3AMark.11&newwindow=BOOKREADER&math=

Dyma nhw'n cyrraedd Bethffage a Bethania wrth Fynydd yr Olewydd yn ymyl Jerwsalem.

Dyma Iesu'n dweud wrth ddau o'i ddisgyblion, “Ewch i'r pentref acw sydd o'ch blaen chi, ac wrth fynd i mewn iddo dewch o hyd i ebol wedi'i rwymo – un does neb wedi bod ar ei gefn o'r blaen. Dewch â'r ebol i mi, ac os bydd rhywun yn gofyn, ‘Beth dych chi'n ei wneud?’ dwedwch, ‘Mae'r meistr ei angen; bydd yn ei anfon yn ôl wedyn.’”

Felly i ffwrdd â nhw, a dyna lle roedd yr ebol, allan yn y stryd wedi'i rwymo wrth ddrws. Wrth iddyn nhw ei ollwng yn rhydd dyma rhyw bobl oedd yn sefyll yno yn dweud, “Hei! Beth dych chi'n ei wneud?” Dyma nhw'n dweud yn union beth ddwedodd Iesu wrthyn nhw, a dyma'r bobl yn gadael iddyn nhw fynd.

Pan ddaethon nhw â'r ebol at Iesu dyma nhw'n taflu'u cotiau drosto, a dyma Iesu'n eistedd ar ei gefn. Roedd llawer o bobl yn gosod eu cotiau fel carped ar y ffordd o'i flaen, neu ganghennau deiliog oedden nhw wedi'u torri o'r caeau. Roedd pobl y tu blaen a'r tu ôl iddo yn gweiddi,
“Hosanna! Clod i ti! Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi'i fendithio'n fawr! Mae teyrnas ein cyndad Dafydd wedi'i bendithio! Hosanna! Clod i Dduw yn y nefoedd uchaf!”

Dyma Iesu'n mynd i mewn i Jerwsalem ac i'r deml. Edrychodd o gwmpas ar bopeth oedd yno cyn gadael. Gan ei bod yn mynd yn hwyr, aeth yn ôl i Bethania gyda'r deuddeg disgybl.

*Marc 11 adnoddau 1-11 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Roedd Iesu ar ei ffordd i ddinas fawr o’r enw Jerwsalem gyda’i ffrindiau. Wrth iddyn nhw nesáu, dywedodd wrth dau o’i ffrindiau, “Ewch i’r pentref acw ac yno fe welwch chi ebol asyn wedi’i glymu. Dewch â fo yma ac os bydd unrhywun yn gofyn i chi beth ydach chi’n ei wneud atebwch nhw, ‘ Mae’r Meistr ei angen.’ ”

Felly i ffwrdd â nhw ac fe ddaethon nhw o hyd i’r ebol asyn a daethant â fo i Iesu. Yna eisteddodd Iesu ar gefn yr ebol asyn a chychwyn i lawr y ffordd am Jerwsalem.

Wrth iddyn nhw nesáu at y ddinas gwelsant dyrfa fawr o bobl yn sefyll bob ochr i’r ffordd yn gweiddi a chwifio coed palmwydd. Tynnodd rhai ohonynt eu cotiau a’u lluchio ar y llawr i wneud carped i Iesu.

Wrth iddo fynd heibio i’r dyrfa, bloeddiodd y dyrfa’n uchel, “Hwre i Iesu. Hwre i’r Brenin arbennig sydd wedi dod yn enw’r Arglwydd. Hosanna.Clod i Dduw.”

# Cwestiynau i'w Trafod

Ar ôl darllen y stori, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn:

1. Sut oedd Iesu'n gwybod y byddai asyn yno i'w ffrindiau ddod o hyd iddo?

2. Pam wnaeth yr holl bobl weiddi'n uchel wrth groesawu Iesu?

3. Sut allwn ni groesawu Iesu heddiw?

4. Pwy ydw i'n ei ddilyn? E.e. ar Youtube neu Face book? Os y buasai Iesu'n dod I fy nhref neu mhentref i, sut fath o groeso fuaswn i eisiau ei roi iddo?

# Dolenni



Sgetsh bypedau o'r stori
https://youtu.be/p7-odgK-IGA

Fideo o'r gân ar ddiwedd y pecyn
https://www.youtube.com/watch?v=a8ocbwYZJvw

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim
https://arwyrancora.com/

Crefft creu palmwydd â papur newydd
https://www.pinterest.co.uk/pin/549861435725826228/

Comic y Pasg
https://issuu.com/ysgolsul/docs/comic_pasg_-_heb

## Amdanom ni

Paratowyd y pecyn hwn gan:
- Andy Hughes - Saint y Gymuned
- Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon

gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan eraill hefyd.



An English version is also available

# Lliwio




"Hosanna! Clod i ti!
Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r
Arglwydd wedi'i fendithio'n fawr!
Mae teyrnas ein cyndad Dafydd wedi'i
bendithio! Hosanna! Clod i Dduw yn y
nefoedd uchaf!"

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | E | Y | R | N | A | S | J | A | NG | D | R |
| A | S | Y | N | P | P | N | E | I | E | S | U |
| H | NG | A | R | N | A | I | R | DD | W | H | Y |
| E | A | NG | M | FF | L | N | W | C | L | O | D |
| C | F | E | E | R | M | E | S | O | CH | S | C |
| A | DD | N | I | G | W | R | A | T | T | A | B |
| NG | D | I | S | G | Y | B | L | I | O | N | C |
| E | I | S | T | E | DD | O | E | A | N | N | U |
| N | DD | F | R | W | D | DD | M | U | LL | A | L |

IESU

JERWSALEM

DISGYBLION

ASYN

MEISTR

ANGEN

COTIAU

EISTEDD

CANGEN

PALMWYDD

HOSANNA

CLOD

TEYRNAS

BRENIN


# Posau


Fedri di ddod o hyd i 10 gwahaniaeth rhwng y lluniau hyn?





Helpwch y bachgen hwn i gyrraedd Iesu







Crefft

# Creu palmwydd dwylo






**Adnoddau**
Pensiliau
Ffon
Siswrn
Tâp selo neu fand elastig
Papur plaen neu bapur lliw gwyrdd
Pensiliau lliw gwyrdd neu greonau gwyrdd



**Cyfarwyddiadau**

Tynnwch lun o ddwylo pawb yn y teulu.



Lliwiwch y lluniau.



Torrwch allan y lluniau.





Rhowch pob deilen yn ei thro yn sownd ar y ffon gan ddefnyddio tâp selo neu fand elastig.


# Creu asyn

**Crefft**




## Adnoddau

Pensiliau lliw, pinnau ffelt neu greonau lliw llwyd neu frown
Papur plaen
Dau beg pren (neu blastig)
Siswrn



**Cyfarwyddiadau ar gyfer creu asyn.**

1. Lliwiwch y ddau beg.
2. Tynnwch lun asyn neu defnyddiwch dempled ac yna'i dorri allan yn ofalus â'r siswrn.
3. Lliwich y llun o'r asyn.
4. Clipiwch y  ddau beg i wneud dwy goes ar gorff yr asyn.





# Rysáit

## Bisgedi Dail Palmwydd

**Cynhwysion**
3 owns/ 75g margarîn
2 owns/ 50g siwgr
4 owns/ 100g blawd codi (‘self raising’)
Ychydig o ddiferion o liw bwyd gwyrdd (os oes gennych chi)

**Dull**

1. Cymysgwch y margarîn a’r siwgr (a’r lliw bwyd gwyrdd) nes eu bod yn gymysgedd ysgafn.
2. Plygwch y blawd i mewn i’r gymysgedd.
3. Tylinwch y gymysgedd i wneud toes.
4. Torrwch yn 14 o ddarnau cyfartal.
5. Rholiwch nhw’n beli yna’u gwneud yn wastad fflat a’u gwneud yn siâp deilen palmwydd.
6. Rhowch y bisgedi siâp deilen ar dun pobi a’u crasu am 15 munud (Nwy Marc 4, 175˚) neu nes y byddan nhw’n frown euraidd.
7. Tynnwch nhw allan o’r popty a’u gadael i oeri.




# Gweddi Greadigol

Yn gyntaf, gwna berson allan o lanhawr pibell.
































Dalia’r siâp o berson yng nghledr dy law

Rwan, meddylia am rywun rwyt ti'n colli ei weld.
Gweddïa na fydd yn drist.

Gweddïa hefyd dros bawb sy'n sâl ar hyn o bryd.

Amen

# Sialens

1. Beth am ddefnyddio Lego i wneud model o'r stori?



2. Beth am actio'r stori.
Fe allech chi ddefnyddio'r palmwydd rydych chi wedi'u gwneud o'r dudalen grefft. Defnyddio 'props' yn y tŷ + gwneud dail palmwydd + asyn i greu llwybr Sul y Blodau e.e. i'r drws ffrynt neu ar draws ystafell – tynnu ei lun.

3. Fe allech chi hefyd wneud model o'r stori gan ddefnyddio toes halen. Gweler isod am y rysáit ar gyfer gwneud toes halen.

**Risáit ar Gyfer Toes Halen**

450g o flawd plaen
150-300ml neu ¾ peint o ddŵr.
2 lwy fwrdd o halen
2 lwy fwrdd o olew coginio
Lliw bwyd

1.Rhowch y blawd a'r halen yn y bowlen.

2.Ychwanegwch y dŵr a'r olew am yn ail ychydig ar y tro.

3.Cymysgwch y cyfan nes bydd ganddoch does meddal.

4.Ychwanegwch ddiferion o liw bwyd o'ch dewis chi.

5.Cadwch y toes mewn cynhwysydd plastig sydd â chaead.



# Gemau



## ‘Be’ di’r gair?’

- Byddwch angen y papurau cliwiau (isod) wedi’u torri’n barod a rhywbeth i amseru, fel ffôn neu amserydd ŵy.
- Torrwch y papurau fel bod gennych chi bentwr.
- Rhowch y cardiau a’u wynebau ar i lawr ar y bwrdd.
- Chwaraewr 1 i godi cerdyn a darllen y cliw i chwaraewr 2.
- Os ydi chwaraewr 2 yn cael yr ateb yn gywir mewn hanner munud mae’n ennill papur y cliw, yna mae chwaraewr 1 yn gofyn cwestiwn arall.
- Os fydd chwaraewr 2 yn methu, yna, mae’r ddau yn newid drosodd ac mae chwaraewr 1 yn cael cyfle i ddyfalu.
- Yr enillydd fydd yr un sydd wedi ennill y mwyaf o bapurau.
- Gallwch chwarae gyda mwy na dau berson hefyd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae yna ddail arni. Mae’n gallu tyfu’n uchel.**<br>Coeden | **Mae ganddo bedair coes. Mae’n llwyd.**<br>Asyn | **Llawer o bobl hefo’i gilydd. Mae hon yn gwylio pêl droed.**<br>Tyrfa | **Roedd yna 12 ohonyn nhw. Roedden nhw’n ffrindiau i Iesu.**<br>Disgyblion | **Mae hwn yn rheoli gwlad. Mae’n byw mewn palas.**<br>Brenin |
| **Mae angen gwisgo un pan mae hi’n oer neu pan mae hi’n bwrw glaw.**<br>Côt | **Mae pobl yn teithio ar hwn. Mae’n arwain o un lle i’r llall.**<br>Ffordd | **Roedd pawb yn rhoi croeso iddo. Mae’n arbennig iawn.**<br>Iesu | **Roedd pobl yn eu chwifio nhw fel baneri. Maen nhw’n tyfu ar goed.**<br>Dail palmwydd | **Roedd pobl yn gweiddi hyn yn y stori. Mae’n dechrau gyda ‘h.’**<br>Hosanna |
| **Roedd Iesu ar ei ffordd yma. Dyma ble’r oedd y deml fawr.**<br>Jerwsalem | **Yn enw ar asyn bach. Mae’n dechrau gydag ‘e’**<br>Ebol | **Mae yna ddail arni. Mae’n gallu tyfu’n uchel.**<br>Coeden | **Byddwn yn dweud hyn wrth i bobl gyrraedd. Gair Cymraeg am ‘bienvenue.’**<br>Croeso | **Byddwn yn gwneud hyn wrth gefnogi tîm. Mae angen llais mawr a chryf.**<br>Gweiddi |
| **Mae hwn yn dir sy’n codi’n uchel.**<br>Mynydd | **Grŵp o dai. Mae fel tref fach.**<br>Pentref | **Rwyt ti’n gwneud hyn ar gadair. Dwyt ti ddim yn sefyll!**<br>Eistedd | **Adeilad mawr i addoli Duw. Roedd un anferthol yn Jerwsalem.**<br>Deml | **Mae un coch yn cael ei osod i bobl bwysig gerdded arno. Mae yna a un ar lawr tŷ**<br>Carped |

## Gêm Gwpanau Sialens yr Adnod

Gemau

**Byddi angen:**
1. 11 o gwpanau neu fygiau neu botiau iogwrt gwag
2. Darn o bapur wedi ei wasgu yn belen
3. Tâp selo
4. Geiriau'r adnod wedi'u torri allan

**Sut i chwarae:**
Torra'r sgwariau geiriau.
Defnyddia'r tâp selo i'w rhoi ar y cwpanau.
Ceisia daflu'r bêl bapur i mewn i'r cwpanau yn nhrefn yr adnod, fel hyn:
1. Hosanna!
2. Clod i ti
3. Mae'r un
4. sy'n dod
5. i gynrychioli'r
6. Arglwydd
7. wedi'i
8. fendithio'n
9. fawr!
10. Marc 11
11. adnod 9



| | | | |
|---|---|---|---|
| *Hosanna!* | *Clod i ti!* | *Mae'r un* | *sy'n dod* |
| *i gynrychioli'r* | *Arglwydd* | *wedi'i* | *fendithio'n* |
| *fawr!* | *Marc 11* | *adnod 9* | |

**Gêm Sialens y Dail Palmwydd**

# Gemau

**Byddi angen:**

1. Torri o gwmpas y dail palmwydd hefo geiriau'r adnod arnyn nhw.
2. Rhywbeth i amseru dy hun.

























Torra'r dail allan ar gyfer y gêm.

**Sut i chwarae:**

Rho'r dail palmwydd ar rywle gwastad fel bwrdd.
Cymysga nhw.
Rho'r geiriau yn nhrefn yr adnod mor sydyn ag y gelli di.
Cofia amseru faint o amser rwyt ti'n gymryd.
Tybed beth fydd dy amser gorau?



# Canu

## Mae gen i ddwylo

1.Mae gen i ddwylo i'w curo i Dduw,
Mae gen i goesau, i neidio i Dduw,
Mae gen i 'sgwyddau i blygu i Dduw,
a fy nghorff i gyd i foli fy Nuw.

Diolch, diolch, diolch i Ti, Dduw,
Diolch, diolch, diolch i Ti, Dduw.

2.Mae gen i glustiau i wrando ar Dduw,
Mae gen i geg i weiddi am Dduw,
Mae gen i freichiau i'w codi at Dduw,
a fy nghorff i gyd i foli fy Nuw.

Diolch, diolch, diolch i Ti, Dduw,
Diolch, diolch, diolch i Ti, Dduw.

*Hawlfraint 2010 Billie Owens & Rhys Williams*



Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar
https://www.youtube.com/watch?v=a8ocbwYZJvw

Canu

# Mae gen i ddwylo

Cyflym ♩. = 130

Nicola Owens & Rhys Williams




Hawlfraint 2010 Rhys Williams & Nicola Owens